

# ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL

2017/18

*Cefnogi  
Hyrwyddo a  
Datblygu  
Gweithgareddau  
Gwirfoddol a  
Chymunedol*



Cefnogi Trydydd  
Sector **Cymru**

Third Sector  
Support **Wales**



Croesawa is-gadeirydd FLVC, Paul Hinchliffe, aelodau Cyngor Sir y Fflint i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017

# CYNNWYS

Ein Staff ac Ymddiriedolwyr	3
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint	4
Adroddiad y Cadeirydd	5
Adroddiad y Prif Swyddog	6
Gwirfoddoli	7-8
Llywodraethu Da	9
Cyllid Cynaliadwy	10
Cydweithio a Dylanwadu	11-12
Cyfrifon FLVC 2017/18	14

# EIN HYMDDIRIEDOLWYR

Ers Ebrill 2017

Marjorie Thomson - Cadeirydd  
Wendy Carter  
Clive Bracewell  
Barbara Roberts  
John Hatton  
Jane Styles  
Rhiannon Bidwell

Paul Hinchliffe - Is-gadeirydd  
Michael Dixon  
Liz Holland  
Pip Perry MBE  
Ole Constantine  
Tim Byram  
Angela Garbett  
Amanda Morgan - Cyngorydd

## EIN STAFF

Ers Ebrill 2017

Ann Woods  
Barrie Potter  
Chris Ablett  
Chris Roberts  
Debbie Long  
Emma Gough  
Fran Hughes  
Hayley Hill  
Heather Hicks  
Irene Langford  
Jan Owen  
Jill Blandford  
Jane Hewson  
John Gray  
June Brady  
Karen Peters  
Kate Howard  
Kim Sheridan  
Matt Weedall  
Pam Bebbington  
Rachael Partington  
Shaun Darlington  
Sheila Bacon

Prif Swyddog  
Ymgynghorwr Technegol  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli  
Rheolwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli  
Swyddog Datblygu Llesiant  
Rheolwr Llesiant  
Swyddog Allestyn Cyllid  
Swyddog Datblygu Prosiect  
Rheolwr y Ganolfan Wirfoddoli  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli  
Gweinyddwr Cyfathrebu  
Swyddog Gwybodaeth a Chyngor  
Swyddog Allestyn Cyllid  
Gweinyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithas / QA  
Cydlynnydd y Trydydd Sector (SPoA and Early Help Hub)  
Swyddog Rhagnodi Cymunedol  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli  
Swyddog Cefnogi Corlan  
Gweinyddwr y Ganolfan Wirfoddoli  
Rheolwr Busnes a Chyllid  
Cynorthwydd Cyllid

Dyluniad ac wedi ei argraffu gan Claire Doughty @ Double Click Design & Print CIC

### CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT

Rhif Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3301204 | Rhif Cofrestru'r Elusen 1062644

Swyddfa Gofrestredig: CORLAN, Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wreccsam, Y Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1XP

Ffôn: 01352 744000 | [info@flvc.org.uk](mailto:info@flvc.org.uk) | [www.flvc.org.uk](http://www.flvc.org.uk) | [facebook.com/flvcpage](https://facebook.com/flvcpage) | [twitter @FLVCnews](https://twitter.com/FLVCnews)



# CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT -

## *Rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru*

### CEFNDIR...

**CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT (FLVC)** ydy'r mudiad ymbarél a chefnogi ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint. Mae'n un o'r 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVCs) yng Nghymru a bu iddyn nhw ddechrau gweithredu ym 1997. Mae FLVC yn elusen gofrestredig (1062644) ac yn gwmni cyfyngedig (3301204). Mae hyd at 15 gyfarwyddwyr ymddiriedolwyr yn rhan o'r mudiad, o'r sector gwirfoddol lleol yn bennaf ynghyd ag 16 aelod o staff, rhan amser a llawn amser. Ers 2008, bu FLVC yn CORLAN ym Mharc Busnes Yr Wyddgrug.

Mae **FLVC** yn meddu ar dros 1200 o gysylltiadau gwirfoddol a chymunedol ar eu cronfa ddata ac mae ganddyn nhw dros 300 o aelodau. Mae FLVC yn derbyn eu cyllid gan sawl ffynhonnell, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Teuluoedd yn Gyntaf, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB). Mae FLVC hefyd yn cynhyrchu incwm drwy rentu swyddfeydd yn CORLAN.

**Rydym yn rhan o rwydwaith mewnol Cefnogi Trydydd Sector Cymru** wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ein nod ar y cyd ydy cynnig cyfle i wirfoddolwyr y trydydd sector ledled Cymru i gyfrannu'n gyfan gwbl at lesiant unigol a chymunedol, ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol.

**Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru** yn rhwydwaith o fudiadau cefnogi ar gyfer y trydydd sector cyflawn yng Nghymru. Mae'n gyfuniad o'r 19 corff cefnogi lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Rydym yn cydweithio gyda thrigolion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i gydnabod a mynd i'r afael â hynny sy'n bwysig

iddyn nhw. Er mwyn cyflawni ein nod ar y cyd, rydym yn cydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill sy'n rhan o'r trydydd sector, y sector cyhoeddus, o'r meysydd busnes ac ymchwil, ynghyd ag arianwyr.

### **Rydym yn ymwneud â phedwar maes gwaith, sef:**

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu Da
- Cyllid Cynaliadwy
- Cydweithio a dylanwadu

### **Mae ein gwaith yn canolbwyntio'n eang ar y themâu cyffredin canlynol:**

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Siapio, dylanwadu ar a datblygu cyfalaf cymdeithasol a hydwythdedd y sector
- Hyrwyddo'r sector

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Dyma fy nhrydydd adroddiad, a'm hadroddiad olaf, fel Cadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC). Mae wedi bod yn dair blynedd werthfawr ond heriol gyda nifer o newidiadau, llawer o bethau cadarnhaol ond hefyd rhai pethau rhwystredig. Mae'r pethau gwerthfawr yn cynnwys cyfarfod cymaint o wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni yn hael iawn i'w mudiad trydydd sector penodol. Mae FLVC, mudiad cefnogi'r trydydd sector yn Sir y Fflint, gyda'i swyddfa yn y Gorlan, yn croesawu pob gwirfoddolwr, ymddiriedolwr ac aelod i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau a hyfforddiant sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn.**

Rhywbeth sydd wedi bod yn rhwystredig i mi ydy'r toriadau parhaol i nawdd flwyddyn ar ôl flwyddyn sydd yn anochel wedi arwain at leihau oriau gwaith ein staff a chwtogi ar yr hyn allwn ni ei gynnig. Er hynny, yn ystod y cyfnod hwn rydw i'n falch ein bod ni wedi ennill cydnabyddiaeth am ein gwasanaeth o safon drwy ennill Marc Ansawdd Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr (IIV), gwobr Cyflogwr Enghreifftiol Chwarae Teg yn 2017 ac yn ddiweddar Lefel 1 PQASSO - gwobr Sicrhau Ansawdd i fudiadau trydydd sector. Mae PQASSO wedi ein galluogi ni i gryfhau ein trefn lywodraethol er mwyn gwella sut rydym ni'n gweithredu ac arddangos deilliannau yn well. Mae'r broses PQASSO wedi gadael i staff ac ymddiriedolwyr weithio gyda'i gilydd i adolygu ein Cynllun Gweithredu Strategol a chynhyrchu targedau gweithredol realistig gaiff eu monitro yn rheolaidd. Byddwn ni'n parhau i arolygu holl randdeiliaid FLVC drwy holiaduron effaith ac yn ymgynghori gyda'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau ynglŷn ag effaith y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn.

Ym mis Mawrth, roedd hi'n bleser gennym ni fynd i seremoni wobrwyo Gwobrau'r Uchel-Siryf yn Ysgol Rhuthun, lle roedd unigolion a grwpiau o Sir y Fflint sy'n rhoi o'u hamser i helpu eu cymunedau yn derbyn gwobr gan Charlotte Howard, Uchel-Siryf Clwyd.

Gobeithio y byddwch chi'n parhau i dderbyn gwybodaeth gan FLVC drwy ein e-fwletin. Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ddaeth i rym ym mis Mai eleni yn effeithio ar bob mudiad trydydd sector sy'n storio a phrosesu data personol buddiolwyr, rhoddwyr ariannol, staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr. Mae FLVC yn parhau i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth ar brif faterion ac wedi cynnal cyrsiau ar bynciau megis GDPR, Diogelu a Deall Llywodraethu Da.

Mae cyrsiau hyfforddi 2017/2018 gan FLVC yn cynnwys pynciau amrywiol tebyg i Godi Arian yn Ddigidol, Rhagarweiniad i Werth Cymdeithasol, Rhagarweiniad i Gyfrannau Cymunedol, Cymorth Cyntaf Mewn Argyfwng yn y Gweithle, Ymwybyddiaeth o Anffafiaeth a Chymorth Cyntaf lechyd Meddwl i bobl ifanc. Gadewch inni wybod os oes arnoch chi angen unrhyw hyfforddiant penodol yn eich mudiad y gallwn ni helpu gydag o.

Mae FLVC yn rhoi cefnogaeth sy'n galluogi cyswllt perthnasol gydag a dylanwad ar gyrf llywodraethu'r sector cyhoeddus trwy ddysgu a datblygu perthynas er budd cyffredin. Mae Compact Sir y Fflint yn parhau i weithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod sgwrs effeithiol a strategol rheolaidd rhwng Cyngor Sir y Fflint a'r Bwrdd lechyd gyda chynrychiolwyr y trydydd sector. Trefnwyd cynhadledd trydydd sector - Rhoi Cyd-gynhyrchu ar Waith gan FLVC yn rhymor yr Hydref 2017. Roedd y sesiynau yn cynnwys - Cryfhau a grymuso'r trydydd sector, Egwyddorion cyd-gynhyrchu, Cymunedau Gwydn, Gogledd Cymru lach, Gwneud i Sir y Fflint Symud a Phresgripsiwn Cymdeithasol. Rydym ni'n bwriadu trefnu cynhadledd debyg gyda thema wahanol yr Hydref hwn hefyd - felly gwylwch allan am wybodaeth am y digwyddiad!

Diolch ichi am gymryd amser i ddysgu mwy a FLVC. Os hoffech chi gefnogi a dylanwadu ar ein gwaith yn fwy uniongyrchol, mae gennym ni nifer fach o lefydd gwag ar ein Bwrdd eleni - a fuasai eich mudiad yn hoffi eich enwebu i gynrychioli'r trydydd sector fel ymddiriedolwr FLVC? Hoffem ni ddenu pobl i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr o bob rhan o'r sir ac o wahanol gefndiroedd, ac o bosibl, gyda phrofiad yn y Sector Gwirfoddol. Mae arnom ni angen pobl sydd am weld y Sector Gwirfoddol yn tyfu mewn modd cadarnhaol ac adeiladol, fydd yn rhoi o'u hamser, eu gwybodaeth a'u profiad er mwyn cefnogi gwaith y mudiad. Buasai'r sgiliau a'r profiadau canlynol o gymorth: cefnogi staff a gwirfoddolwyr, rheoli arian, hyfforddiant, llywodraethu, cynllunio strategol, marchnata/cyhoeddusrwydd, codi arian a materion anabledd yn ogystal â bod â chysylltiadau da gyda chymunedau a gwasanaethau lleol. Buasai FLVC hefyd yn elwa o ymddiriedolwyr sydd â phrofiad entrepreneuriaid a phrofiad busnes.

**Marjorie Thomson**  
Cadeirydd FLVC



Marjorie Thomson  
Cadeirydd FLVC

# ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG



Ann Woods -  
Prif Swyddog FLVC

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn rhwydwaith o fudiadau cefnogi ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Ein nod ar y cyd ydy helpu'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gynnig eu holl er mwyn helpu gyda llesiant unigolion a chymunedau, ar hyn o bryd ac ar



Cefnogi Trydydd  
Sector Cymru  
Third Sector  
Support Wales

## Croeso i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint - eich cangen leol o Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Hon ydy'r pumed flwyddyn imi gyflwyno Adroddiad Blynyddol FLVC. Bu heriau ariannol i'n mudiad yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf, ond rydym yn parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd o wella ansawdd ac effeithiolrwydd cost y gwasanaethau rydym yn eu cynnig, sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Gwirfoddoli • Llywodraethu Da
- Cyllid Cynaliadwy • Cydweithio a Dylanwadu

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, fe welwch chi y cafodd ychydig o'n llwyddiannau yn ymwneud â'r meysydd hyn ar gyfer Cynllun Llesiant Sir y Fflint 2017/18\* eu cyflawni ar ddechrau'r flwyddyn. Fel partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Y Fflint, cefais fy nghalonogi a fy mrwdfrydu dros barodrwydd holl bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus i roi gwerth i ac eithafu mewn bwn gwasanaethau cefnogi'r Trydydd Sector er mwyn bodloni anghenion a dyheadau ein trigolion lleol. Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir y Fflint ydy Diogelwch Cymunedol, Economi a Sgiliau, yr Amgylchedd, Byw'n Iach ac Annibynnol a Chymunedau Hydwyth.

Ym mis Mehefin 2018, bu'n fraint gen i fynychu lansiad swyddogol Hwb Cymorth Cynnar Sir y Fflint. Mae'r dull aml-asiantaeth yn cefnogi teuluoedd yn profi effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r gwasanaeth yn ddull blaenllaw i gynnig cefnogaeth i deuluoedd wrth fodloni gofynion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant (Cymru) 2014. Gyda chefnogaeth Teuluoedd yn Gyntaf, bu'r Trydydd Sector yn rhan ganolog o ddatblygiad Strategol a Gweithredol y dull arloesol a gochelgar hwn i ofalu fod modd i deuluoedd, sydd ddim yn bodloni'r trothwy ar gyfer gwasanaethau statudol, yn medru manteisio ar gymorth pan maen nhw mewn angen.

Buom yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn datblygu gwaith y tîm Llesiant. Bu inni fwrw golwg ar sut mae modd i swyddi'r Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi eu hariannu, gynnig gwell gyfleoedd er mwyn cydweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a

darparwyd er mwyn cydlynu cynllunio gwasanaethau aml-asiantaethau.

Yn rhanbarthol, buom yn cydweithio gyda chydweithwyr o bob Cyngor Gwirfoddol Sirol eraill Gogledd Cymru er mwyn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn dangos tystiolaeth o Werth Cymdeithasol. Trwy ein gwaith ar y cyd â Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru, y gobaith ydy dylanwadu ar gomisiynwyr er mwyn gwneud cyfrif am fuddion ehangach Gwasanaethau Cefnogi'r Trydydd Sector.

Fel rhan o'r gwaith ar y cyd â'r corf cenedlaethol, WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), bu inni gynrychioli ar grwpiau gwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru ynghylch Diogelu a Mesur Effaith.

Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd (ac adnoddau) er mwyn datblygu ein Hyfforddiant Achrededig Cyffredinol i wirfoddolwyr sy'n rhan o fudiadau Trydydd Sector eraill. Mae ein Cynlluniau Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth yn parhau i ffynnu gan gynnig cefnogaeth angenrheidiol ar gyfer gwirfoddolwyr arfaethedig sy'n dymuno derbyn help llaw.

Ym mis Mawrth 2018, gofynnwyd i FLVC a Chyngor Sir y Fflint gyflwyno Cynhadledd Llywodraeth Cymru ar gefnogaeth ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol, o ganlyniad i'n gwaith ar y cyd yn cefnogi grwpiau sy'n dymuno cymryd yr awenau dros wasanaethau a chyfleusterau lleol.

Rydym yn cydweithio gyda Choleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr er mwyn amlygu a datblygu'r cysylltiadau rhwng dysgu gydol oes, gwirfoddoli a llesiant.

Mae Ymddiriedolwyr FLVC yn parhau i weithio'n ddiwyd i'n helpu i wella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Hefyd bu i'r Ymddiriedolwyr cefnogaeth ac archwiliadau ar gyfer ein hasesiadau Sicrhau Ansawdd yn 2017/18. Mae'r tîm o staff yn ymdrechu i geisio gofalu fod FLVC yn fan croesawgar i bawb ac rydym yn edrych ymlaen at siarad gyda chi'n fuan, os gallwn eich helpu mewn unrhyw ffordd.

Ann Woods - Prif Swyddog FLVC  
01352 744028  
[ann.woods@flvc.org.uk](mailto:ann.woods@flvc.org.uk)

# GWIRFODDOLI

## • Rhwydweithiau a Chyfathrebu

Rydym yn gweithredu fel corf i rannu gwybodaeth, manylion ac ymarfer da er mwyn cefnogi gwella parhaus yn ymwneud â gwaith gwirfoddol.

## • Recriwtio Gwirfoddolwyr a Lleoliadau Gwaith

Rydym yn hwyluso cydnabod, datblygu a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli o safon, hawdd eu manteisio arnyn nhw ac rydym yn paru gwirfoddolwyr gyda gwaith addas.

## • Rheoli Gwirfoddolwyr

Rydym yn cefnogi mudiadau i gynnig ymwyaf o fuddion ar y cyd posib yn ymwneud â gwirfoddoli.

## • Grantiau

Bu inni gynnig cefnogaeth er mwyn datblygu'r gallu i recriwtio a chefnogi canolfan wirfoddoli cynaliadwy.

## • Cydnabod a Gwobrwyo

Rydym yn helpu hyrwyddo llwyddiannau gwirfoddolwyr unigol a'u cyfraniad ar y cyd tuag at lesiant a chydlynid Cymru.

## Ein Llwyddiannau

- ✓ Bu inni ymateb i 384 ymholiad ynghylch gwirfoddoli
- ✓ Bu inni gynnal 149 cyfweiliad un-i-un gyda Gwirfoddolwyr
- ✓ Bu i 246 person dderbyn cefnogaeth gan staff FLVC i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli
- ✓ Bu i 135 unigolyn fynychu ein digwyddiad Dathlu Gwirfoddolwyr Volfest ym mis Mehefin 2017
- ✓ Cafodd 4 Fforwm Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr eu cynnal yn ystod y flwyddyn a bu i gyfanswm o 70 eu mynychu nhw
- ✓ Bu i'n prosiectau Gwirfoddoli gyda chefnogaeth helpu 88 unigolyn (gydag anghenion cefnogi ychwanegol) i fanteisio ar Gymwysterau achrededig a sesiynau blasu i wirfoddolwyr ledled Sir y Fflint.



Cefnogi gwaith gwirfoddol yng Ngardd Gymunedol Yr Wyddgrug



Staff Canolfan Gwirfoddoli FLVC



Stepping up to Volunteering



Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol Gogledd Cymru



'Daffodiils' yn derbyn eu Gwobr Uchel-Siryf

## • Camu Fyny Camu Allan

Drwy ein prosiect gwirfoddoli gyda chefnogaeth ar y cyd â Mind Gogledd Ddwyrain Cymru, bu inni gynnig sesiynau blasu / lleoliadau gwaith i wirfoddolwyr ynghyd â chymwysterau achrededig i unigolion yn dioddef problemau iechyd meddwl a / neu problemau gyda chamdddefnyddio sylweddau.

*'Fe wnes i wir fwynhau'r cwrs. Mae'n bleser cyfarfod â phobl o fudiadau eraill a deall eu gwaith'*

Bu i 100% o unigolion ar ein cwrs diwethaf ddweud y bu i'r gefnogaeth roi hwb i'w hyder, a dywedodd dros 90% y bu i'r cwrs eu helpu i deimlo'n fwy cadarnhaol am y dyfodol.

## • Camu at Wirfoddoli

Mae Camu at Wirfoddoli yn Brosiect Gwirfoddoli gyda chefnogaeth i unigolion gydag Anawsterau Dysgu, caiff ei gynnal ar y cyd â Chymdeithas Awtistiaeth Cenedlaethol Cymru Dyma ddyfyniad gan Gyfeiriwr i'r prosiect hwn: *'rydym yn teimlo fel ei fod yn cynnig cefnogaeth werthfawr a chyfleoedd i bobl sydd methu â manteisio ar gefnogaeth arall ar hyn o bryd. Mae diffyg gwasanaethau cefnogi ar gael i'r rheiny gydag ASD a / neu anawsterau dysgu sy'n fwy abl ac sydd heb becyn gofal. Mae'r prosiect yn helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gwella'u sgiliau cymdeithasol, datblygu hunan-barch a manteisio ar brofiad gwaith'.*

Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol:

- Bu i 100% o unigolion wnaeth fanteisio grybwyll eu bod yn teimlo eu bod wedi rhoi hwb i'w hyder a llesiant er mwyn medru mynd ati i gydweithio gyda'r gymuned yn y dyfodol hefyd.
- Bu i 95% ddweud y bu cynnydd yn eu sgiliau yn ymwneud â gwaith.

## • Gwaith Gwirfoddol Pobl Ifanc

Mae ein partneriaeth gyda Gwasanaethau Ieuencid Sir y Fflint yn cefnogi pobl ifanc i helpu datblygu eu sgiliau ymdopi a rhoi hwb i'w hyder er mwyn mynd ati i wirfoddoli yn eu cymuned. Yn 2017/18, bu i 27 person ifanc elwa o'r gefnogaeth hon

## • Prosiectau Gwirfoddoli FLVC

Bu FLVC ar eu pen eu digon o gyflawni Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn ystod Gwanwyn 2017. Mae sawl swydd wirfoddol wag yn ein mudiad (gan gynnwys gwaith Gweinyddol a swyddi yn ymwneud â'r Prosiectau Gwirfoddoli gyd Chefnogaeth).

## • Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IIV)

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IIV) ydy safon ansawdd ar gyfer mudiadau ar draws Prydain yn ymwneud â gwirfoddolwyr. Ei nod ydy gwella ansawdd y profiad gwirfoddoli i wirfoddolwyr ac annog mudiadau i gydnabod yn well y cyfraniad sylweddol gan wirfoddolwyr. Caiff Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ei reoli yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cafodd Cyngor Gwirfoddol eu hasesu yn erbyn ystod o safonau ymarfer gorau a bu iddyn nhw ddangos tystiolaeth o'u cymhwysedd ymhob agwedd o weithio gyda'u gwirfoddolwyr eu hun.

## EIN HEFFAITH?

### • Cwrs Cyflwyno Cyffredinol i Wirfoddolwyr

Rydym yn cynnal Cwrs Cyflwyno Achrededig i Wirfoddolwyr i wirfoddolwyr cysylltiedig â Grwpiau Trydydd Sector eraill. Bu ymateb cadarnhaol dros ben gan fudiadau yn gweithredu yn Sir Y Fflint.

Ymysg y sesiynau mae Swyddi a Chyfrifoldebau Gwirfoddol, Iechyd a Diogelwch, Cyfrinachedd, Diogelu, Polisïau a Gweithdrefnau. Caiff y cwrs ei deilwra at swyddi gwirfoddol yn y mudiadau sy'n bresennol ymhob cwrs.



**Dywedodd Jan Owen, Rheolwr Gwirfoddoli yn FLVC...**

*Bu i dîm y Ganolfan Wirfoddoli fwynhau blwyddyn brysur a chynhyrchiol. Rydym yn cynnig cefnogaeth i'r Trydydd Sector ledled Sir Y Fflint gan gefnogi unigolion i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli, cynnig hyfforddiant achrededig ynghyd â chynnig cefnogaeth wedi ei deilwra i fudiadau.*





# LLYWODRAETHU DA

## • Gwybodaeth a Chyngor

Rydym yn cynnig gwybodaeth sy'n hawdd manteisio arni, cyngor ac adnoddau i roi llywodraethu da ar waith a sicrhau gwella parhaus..

## • Dysgu a Datblygu

Rydym yn cynnig help ymarferol i ymddiriedolwyr a staff gyda thâl i fedru gweithredu'n gyfreithiol ac effeithiol.

## • Hyrwyddo Systemau Sicrhau Ansawdd

Rydym yn helpu mudiadau i adnabod safonau ansawdd perthnasol a mynd ati i'w cyflawni.

## • Hyrwyddo'r Sector

Rydym yn helpu hyrwyddo gwerth a chyfraniad y sector tuag at y Gymdeithas Gymraeg.



AGM 2017

## EIN HEFFAITH ?

*Mae ein staff yn cydweithio gyda WCVA fel rhan o'r rhwydwaith 'Diogelu Llysgenhadon' er mwyn datblygu ymarfer da ynghylch Diogelu.*

*Yng Ngwanwyn 2017, bu i FLVC ennill Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Statws Cyflogwr Delfrydol Chwarae Teg. Bu i hyn adlewyrchu ein dull o sicrhau Llywodraethu da yn ein mudiad ein hun wrth inni gefnogi mudiadau eraill gyda'u polisïau a gweithdrefnau.*

*Eleni fe gawsom ein hasesu ar gyfer statws Marc Ansawdd PQASSO.*

*Bu inni gynnig cefnogaeth gyda Llywodraethu a / neu Gynlluniau Busnes i fudiadau sy'n dangos diddordeb mewn proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Sir y Fflint.*

## EIN LLWYDDIANNAU?

- ✓ Bu inni ymateb i dros 5,500 ymholiad.
- ✓ Bu i dros 53,000 o bobl ymweld â'n gwefan.
- ✓ Bu inni dderbyn ac ymateb i 398 ymholiad gan ymddiriedolwyr.
- ✓ Bu i 215 unigolyn fynychu ein Cysiau Hyfforddi.
- ✓ Bu inni ddatblygu Cynllun Rheoli Gwirfoddolwyr, er mwyn ategu at ein Cwrs Cyflwyno Cyffredinol i Wirfoddolwyr.
- ✓ Ffurfiwyd 8 mudiad newydd gan gynnwys 5 mudiad elusennol corfforedig.

*“Diolch yn fawr iawn am eich help. Mae'n falch iawn gen i ddweud fod gennym ni rif elusen erbyn hyn ac mae modd inni fynd ati gyda'n memorandwm a deunydd cyhoeddusrwydd... bu'r cyngor a chefnogaeth gennych chi heb eu hail.”*

# CYLLID CYNALIADWY



Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol Gogledd Cymru

## • Gwybodaeth a Chyngor

Ein nod ydy gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd er mwyn derbyn cyllid ac adnoddau i ddatblygu gallu mudiadau i ddod o hyd i a chynyddu eu hincwm.

## • Dysgu a Datblygu

Rydym yn helpu gwella sgiliau, gwybodaeth a gallu mudiadau er mwyn cynyddu eu cyllid a'i reoli'n effeithiol.

## • Hyrwyddo'r Sector

Rydym yn cydnabod llwyddiannau yn ymwneud â chodi arian, yn rhannu gwybodaeth ac ymarfer da ac yn datblygu perthnasau gwell gydag arianwyr

## • Manteisio ar Wasanaethau Ymarferol a Buddion

Rydym yn cynnig modd ichi fanteisio ar fuddion lleol, rhanbarthol neu genedlaethol ynghyd â chynnig cyngor ynghylch ffynonellau o help / cefnogaeth ymarferol.

## • Manteisio ar Gyllid

Rydym yn helpu mudiadau i gynyddu eu hincwm, amrywio cyllid a dod yn gynaliadwy yn ariannol.

## EIN HEFFAITH ?

*Mae FLVC yn gweinyddu cynllun grant Cist Cymunedol Sir y Fflint ar ran Cyngor Sir y Fflint.*

*Nod y grant ydy cefnogi mentrau unigol fel prosiectau cyfalaf llai, digwyddiadau cymunedol, offer, deunydd cyhoeddusrwydd, marchnata a chysiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth yn Sir y Fflint. Cafodd 34 grant eu cyflwyno a oedd yn gyfanswm o £19,096.*

*Cafodd FLVC eu cynrychioli ar y paneli cyflwyno grantiau a gwneud penderfyniadau canlynol:*

- Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
- Cist Gymunedol Chwaraeon Sir y Fflint
- Cronfa'r Degwm Sir y Fflint
- Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
- Cronfa Gwaddol Cymunedol Sir y Fflint
- Cronfa Gymunedol Banc Burbo
- Cadwyn Clwyd

*Bu inni gynnig hyfforddiant wedi ei deilwra i fudiadau bach/canolig yn Sir y Fflint yn ymwneud â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.*

## EIN LLWYDDIANNAU ?

✓ *Eleni bu inni dderbyn 295 ymholiad gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol a bu inni fedru cynnig cyfle i'r grwpiau hynny i fanteisio ar £721,520 o gyllid gan ystod eang o ffynonellau.*

✓ *Bu inni gynnal 7 Diwrnod Gwybodaeth am Gyllid.*

✓ *Bu modd i 76 mudiad siarad yn uniongyrchol gydag arianwyr grant mewn sesiynau un i un ar y cyd ag FLVC.*

✓ *Bu i gyfanswm o 84 grŵp fanteisio ar help uniongyrchol gan y Gronfa'r Loteri Treftadaeth, Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl, Plant mewn Angen, Gwobrau'r Loteri Fawr i Gymru Gyfan, Gwynt y Môr ac ati.*

“ **Bu FLVC yn rhan annatod i'n helpu ni i lwyddo i ennill cyllid gan Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl. Bu i hyn ein helpu i gynyddu ein tîm staff a chynyddu ein gwasanaethau a gweithgareddau.** ”

# CYDWEITHIO A DYLANWADU

- **Gwybodaeth a Chyngor ynghylch Polisiâu**

Rydym yn cynnig cefnogaeth sy'n sicrhau cydweithio priodol gydag a dylanwadu cyrff llywodraethu'r sector cyhoeddus perthnasol drwy ddysgu a datblygu perthnasau gyda budd i'r ddwy ochr.

- **Llais y Trydydd Sector**

Drwy gynrychioli ar strwythurau llywodraethu y sector cyhoeddus, neu hwyluso enwebu a chydweithio gyda chynrychiolydd priodol o'r trydydd sector, gan ddod â heriau, cynrychiolaeth ac atebolrwydd i strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y sector cyhoeddus.



Lansio 'Early Help Hub'



Cynhadledd Trydydd Sector FLVC 2017

## EIN LLWYDDIANNAU?

- ✓ *Bu inni gynnig Gwasanaethau Gwybodaeth a Chefnogaeth Cyffredinol i dros 120 o'n cysylltiadau o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.*
- ✓ *Mae dros 318 o'n cysylltiadau yn derbyn ein e-newyddlen Llesiant pob wythnos*
- ✓ *Bu i dros 53,000 o bobl ymweld â'n gwefan sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor i grwpiau cymunedol a'n partneriaid.*

Rydym yn cydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn Sir y Fflint yn ymwneud â'r blaenoriaethau 'Cymunedau Hydwyth' a 'Byw'n lach ac yn Annibynnol'. Hyn i gyd er mwyn gofalu caiff Gwerth Cymdeithasol y Trydydd Sector ei hyrwyddo ac er mwyn datblygu cydweithio effeithiol wrth gynnig Cynllun Llesiant Sir y Fflint.

Mae gennym ni Gydlynwyr Trydydd Sector yn gweithio yn yr adrannau Un Pwynt Mynediad a Hwb Cymorth Cynnar i Deuluoedd. Maen nhw'n cynnig cefnogaeth aml-asiantaethau ar y safle ar gyfer 'Yr hyn sy'n Bwysig' i drigolion Sir y Fflint. Mae'r cydlynwyr hefyd yn cydweithio gyda sawl asiantaeth er mwyn datblygu cefnogaeth Rhagnodi Cymdeithasol ehangach.

Rydym yn cydweithio gyda Mantell Gwynedd (Cyngor Gwirfoddol Sirol Gwynedd) ac ein cydweithwyr o Gynghorau Gwirfoddol Sirol eraill ledled Gogledd Cymru i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth Gwerth Cymdeithasol i fudiadau'r Trydydd Sector.

Mae Prif Swyddog FLVC yn cyd-Gadeirio'r Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol (drwy Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru (NWSWIC)) sy'n cysylltu gyda holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ynghylch gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn i awdurdodau lleol gydweithio mwy gyda mudiadau Gwerth Cymdeithasol.

Mae ein Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn gweithio yn Sir y Fflint a Wrecsam) yn parhau i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol Wrecsam a Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid statudol a Thrydydd Sector eraill ar brif broblemau a blaenoriaethau gan gynnwys canolbwyntio ar gydweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a chyd-gynhyrchu.

Rydym yn cydweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria er mwyn cryfhau ein dull i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a dangos tystiolaeth o fuddion i lesiant yn sgil cydweithio yn y trydydd sector.

**Mae staff FLVC yn cydweithio gyda WCVA i ddatblygu ein cynnig ar y cyd o gefnogaeth ar gyfer materion yn ymwneud â Diogelu a hefyd yn dangos tystiolaeth o effaith ein gwaith.**

**Rydym yn cydweithio gyda'n corff cenedlaethol WCVA er mwyn cynnig y mwyaf o gyfleoedd â phosib i Cefnogi Trydydd Sector Cymru fedru cynnig gweithdrefnau arloesol er mwyn ymateb i anghenion ein cymunedau.**

## **EIN HEFFAITH ?**

*• Cafodd ein Cynhadledd Trydydd Sector ym mis Medi 2017 ei gynnal ar y cyd â Rhwydwaith Cyd-Gynhyrchu Cymru a chynnal trafodaethau gyda dros 100 cydweithiwr ynghylch Egwyddorion Cyd-Gynhyrchu, Cymunedau Hydwyth, Gogledd Cymru Iach, Rhagnodi Cymdeithasol a hefyd effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.*

*• Cafodd ein gwaith ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint i gefnogi grwpiau gyda diddordeb yn y broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) ei enwi fel model ymarfer da gan Lywodraeth Cymru. Bu i Ann Woods, y Prif Swyddog ac Ian Bancroft, Pennaeth Newid Trefnu yng Nghyngor Sir y Fflint hwyluso gweithdai CAT mewn Cynhadledd Llywodraeth Cymru yn Llanrwst ym mis Mawrth.*



Gweithdy Gwirfoddoli Theatr Clwyd



Hyfforddiant awtistiaeth yn y gweithle yn y Gorlan



Cyn-yymddiriedolwyr ac ymddiriedolwyr presennol yn dathlu pen-blwydd FLVC yn 20ain



Kirsty Ann Hughes yn derbyn Gwobr Gwirfoddoli Tom Jones i Bobl Ifanc 2017



Cerddwyr Yr Wyddgrug

# CYFRIFON FLVC 2017/18

## Datganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

	Cronfeydd heb eu cyfyngu £	Cronfeydd cyfyngedig £	2018 Cyfanswm cronfeydd £	2017 Cyfanswm cronfeydd £
<b>INCWM A GWADDOLION O</b>				
<b>Gweithgareddau elusennol</b>				
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	98,143	58,386	156,529	159,208
Llywodraeth Cymru	-	4,000	4,000	4,000
Cyngor Sir y Fflint	16,066	229,215	245,281	232,002
Cyrff Cyhoeddus Eraill	-	66,550	66,550	51,808
Gweithgareddau masnachu eraill	125,894	26,666	152,560	143,910
Incwm buddsoddi	610	-	610	551
<b>Cyfanswm</b>	<b>240,713</b>	<b>384,817</b>	<b>625,530</b>	<b>591,479</b>
<b>GWARIANT AR</b>				
<b>Codi arian</b>				
Gweithgareddau masnachu eraill	3,593	-	3,593	1,271
	3,593	-	3,593	1,271
<b>Gweithgareddau elusennol</b>				
Cyflogau a threuliau staff	141,245	263,835	405,080	358,218
Costau swyddfa	43,379	11,056	54,435	61,109
Treuliau a chostau	12,137	4,037	16,174	26,559
Gwirfoddolwyr a hyfforddiant	1,927	21,029	22,956	27,819
Costau adeilad	60,349	30,512	90,861	85,409
Dibrisiant	742	319	1,061	3,896
Llywodraethu	3,322	2,511	5,833	-
Tâl grant: GwirVol	-	3,278	3,278	4,035
Tâl grant: Cist Gymunedol	-	19,096	19,096	18,468
<b>Cyfanswm</b>	<b>266,694</b>	<b>355,673</b>	<b>622,367</b>	<b>586,784</b>
<b>INCWM NET/(GWARIANT)</b>	<b>(25,981)</b>	<b>29,144</b>	<b>3,163</b>	<b>4,695</b>
<b>CYMODI CRONFEYDD</b>				
<b>Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen</b>	<b>130,816</b>	<b>265,603</b>	<b>396,419</b>	<b>391,724</b>
<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN</b>	<b>104,835</b>	<b>294,747</b>	<b>399,582</b>	<b>396,419</b>

### GWEITHREDOEDD SY'N PARHAU

Mae'r holl incwm a gwariant wedi codi o weithredoedd sy'n parhau.

Daw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol hwn o gyfrifon ariannol archwiledig y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2018